



13 Hydref 2022

Annwyl Ysgrifenyddion Cyffredinol,

Diolch am eich llythyr ynglŷn a'ch pryderon am dâl athrawon a'r gweithredu diwydiannol arfaethedig wedi'r penderfyniad i'w ddod ar setliad tâl athrawon eleni.

Hoffwn ddechrau drwy roi ar y record fy mod i'n deall y dicter a'r siom y mae llawer o weithwyr yn y sector gyhoeddus yn ei deimlo. Fe ddylai gweithwyr y sector cyhoeddus gael eu gwobrwo'n deg ac mae'r disgwyl i gyflog godi yn unol â chwyddiant yn gwbl resymol.

Ond fe fyddwch yn gwybod nad yw hi'n bosib i Lywodraeth Cymru ariannu codiad o'r fath heb gynnydd sylweddol yn ein cyllideb ein hunain i dalu amdano. Byddai codiad cyflog o 12% *wedi'i ariannu'n llawn* yn cyfateb i ymhell dros £100m, a allai ond gael ei ganfod o gyllidebau addysg gyda thoriadau cymharol o flwyddyn i flwyddyn; tra gallai codiad cyflog o 12% *heb ei ariannu* gyfateb i golli mwy na 1,600 o swyddi athrawon llawn amser. Mae'n warth bod Llywodraeth y DU wedi ein gadael mewn sefyllfa mor amhosib.

Fe fydd cyllideb Llywodraeth Cymru werth £4bn yn llai dros dair blynedd y setliad presennol - £1.5bn yn is y flwyddyn nesaf. Ry'n ni'n wynebu bygythiad o doriadau pellach i'n cyllideb ac i wasanaethau cyhoeddus sydd i ddod. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllidol wedi dweud y bydd angen i'r Canghellor ganfod £60bn o arbedion erbyn 2026 i lenwi'r bwlch a adawyd gan doriadau treth heb ei ariannu a chostau benthyca ychwanegol. Dyma fyddai'r toriadau mwyaf i ni brofi erioed - yn fwy hyd yn oed nag yn ystod degawd y cyni.

Mae'n rhaid i ni wneud llawer o benderfyniadau anodd i gyflawni ein hymrwymiaidau presennol dros y misoedd nesaf. Nid ydym yn sefyllfa Llywodraeth y DU lle gallwn fenthyg symiau mawr o gyllid ychwanegol er mwyn mynd i'r afael yn gyflym â'r materion heriol iawn y mae chwyddiant yn eu cael ar ein cyllidebau. Rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i fynd i'r afael â phryderon y proffesiwn addysgu ac rwy'n cydnabod y gwaith aruthrol y maent wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i bartneriaeth gymdeithasol a byddwn yn gweithio drwy'r penderfyniadau y mae angen i ni eu gwneud, gan ddefnyddio ein strwythurau partneriaeth gymdeithasol, a thrwy ddod ag undebau llafur, cyflogwyr a'r llywodraeth ynghyd i sicrhau'r canlyniad gorau posibl o fewn y cyllid sydd ar gael i ni.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwn ein bod wedi derbyn eich sylwadau ysgrifenedig i'r ymarfer ymgynghori diweddar a byddaf yn eu hystyried yn fuan, ochr yn ochr â sylwadau gan bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae'r broses flynyddol hon yn parhau ac rwy'n gobeithio y bydd pawb yn parhau i ymgysylltu'n weithredol wrth iddo ddatblygu.

Gobeithio y gallwn barhau i gydweithio i gyflwyno'r achos mai setliad cyllid teg ar draws y DU yw'r hyn sydd ei angen i sicrhau bod gweithwyr y sector cyhoeddus yn cael eu gwobrwyo'n deg. Gallaf eich sicrhau y byddwn yn parhau i alw ar Lywodraeth y DU i ddefnyddio ei phwerau ariannol i wneud hynny'n bosibl.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, consisting of a stylized 'J' followed by a wavy line and a short horizontal stroke.

Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg